

Cyngor Sir Ddinbych

Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021

Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021. Mae ein crynodeb archwilio'n rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.



Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein [gwefan](#).

Ynglŷn â'r Cyngor

Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



Ffeithiau allweddol

Mae gan y Cyngor 47 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Ceidwadwyr Cymreig 15
- Annibynnol 11
- Llafur 11
- Plaid Cymru – The Party of Wales 10

Gwariodd y Cyngor £203 miliwn ar ddarparu gwasanaethau¹ yn ystod 2020-21, yr 16eg gwariant uchaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru.

¹ Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn costau unrhyw wasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

Ffeithiau allweddol

O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor £48.9 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy². Mae hyn yn cyfateb i 24.1% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, y 12fed ganran uchaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru³.

Mae saith (12%) o'r 58 o ardaloedd yng Nghyngor Sir Ddinbych yn rhai yr ystyrir eu bod ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru; dyma'r seithfed uchaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru⁴.

Rhagamcanir y bydd poblogaeth Sir Ddinbych yn cynyddu 2.8% rhwng 2020 a 2040 o 95,655 i 98,365, gan gynnwys gostyngiad o 9.1% yn nifer y plant, gostyngiad o 4.8% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 29.4% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd⁵.

Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

Fe wnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2020-21 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Gwella'n barhaus**

Roedd rhaid i'r Cyngor sefydlu trefniadau i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac roedd yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a wnaeth y Cyngor ateb y gofynion hyn yn ystod 2020-21.

- **Archwilio'r Cyfrifon**

Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

- **Gwerth am arian**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio pa un a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

² Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau referniw, lle nad yw'r diben wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae hyn yn golygu cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf na grantiau cyfalaf anghymwysedig.

³ Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2020-21

⁴ Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

⁵ Ffynhonnell: Stats Cymru



Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac i weithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan ddal i gyflawni ein dyletswyddau statudol.



I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith cyrff rheoleiddio megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu pa un a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.

Yr hyn a ganfuom

Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2020-21

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

Ar gyfer 2020-21:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamedod bod datganiadau ariannol grŵp y Cyngor yn gywir a theg ar 29 Tachwedd 2021.
- cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor ac â'n gwybodaeth ni am y Cyngor.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 2 Awst 2021 yn dda ar y cyfan.
- cafodd nifer o gamddatganiadau nas cywirwyd yn y datganiadau ariannol a gododd o'n gwaith archwilio eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ym mis Tachwedd 2021.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd am ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau. Nid yw ein gwaith hyd yma wedi canfod unrhyw faterion arwyddocaol.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2020-21 wedi cael ei gwblhau.

Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, fe newidiom ni ddull a ffocws ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrrff eraill. Isod ceir crynodeb o rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau, y mae cryn dipyn ohono'n berthnasol i lywodraeth leol.

Fe gynhaliom ni brosiect i ategu ymdrechion y sector cyhoeddus trwy rannu gwersi a ddysgwyd trwy'r pandemig. Nod y prosiect yw ysgogi rhywfaint o feddwl, a chyfnewid ymarfer. [Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.](#)

Ym mis Mawrth 2021, fe gyhoeddod ni [adroddiad cenedlaethol](#) a oedd yn nodi trosolwg o'r cynnydd hyd yma o ran Profi, Orlhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom hefyd gyhoeddi rhai o [arsylwadau'r](#) Archwilydd Cyffredinol ar gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod pandemig COVID-19, ac yna [adroddiad](#) ar hynny ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein [hadroddiad](#) ar gyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

Gwella'n barhaus

Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol ardystio bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau sy'n weddiill dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fel y'u harbedwyd gan orchymyn a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fel rhan o'n harchwiliad o asesuadau cynghorau o'u perfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fe wnaethom nodi bod llai o gyfeirio at wybodaeth gymharol am berfformiad er ein bod yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at atal gwaith i gasglu peth data ar lefel genedlaethol am y tro. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn dal i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian a bydd yn her i gynghorau ei ystyried yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Cynaliadwyedd ariannol

Yn ystod 2020-21, fe wnaethom archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Yng Nghyngor Sir Ddinbych fe ddaethom i'r casgliad bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig – mae ganddo hanes da o reoli ei gyllideb ac mae'n parhau i weithio i wella'i sefyllfa ariannol ymhellach.

Fe wnaethom hefyd gyhoeddi dau adroddiad cryno cenedlaethol: yr [adroddiad cyntaf](#) ym mis Hydref 2020 a'r [ail adroddiad](#) ym mis Medi 2021. [Adroddiad ar gynaliadwyedd ariannol ar gyfer 2021.](#)

Cynllunio adferiad

Fe wnaeth adferiad Cyngor Sir Ddinbych o effaith y pandemig elwa o ymgysylltu rhagweithiol ar lefel ranbarthol a lleol a dangosodd prosesau cynllunio a phenderfynu'r Cyngor arweinyddiaeth ar y cyd a oedd yn gryf ac yn gyson. Fe wnaeth dull y Cyngor o fynd ar drywydd adferiad elwa o berthnasoedd cadarnhaol rhwng swyddogion ac aelodau ac fe aeth i'r afael â'r heriau a achoswyd gan y pandemig. Roedd rhai camau gweithredu a gymerwyd yn

ystod yr ymateb i'r argyfwng, megis cadw ffocws ar ei uchelgeisiau o ran newid hinsawdd a'r trefniadau adrodd ariannol a oedd wedi hen ennill eu plwyf, yn arbennig o gadarnhaol.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Adolygiad Cynnydd Bargaen Twf Gogledd Cymru: Yn ystod 2020-21, fe wnaethom geisio ateb y cwestiwn: 'Wrth gyflawni ei nodau cyffredinol, a yw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) yn barod ac yn gallu addasu i gwrdd â'r amgylchiadau economaidd sy'n newid?' Mae BUEGC yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe chyngor yng Ngogledd Cymru. Daethom i'r casgliad yn ein hadroddiad bod gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig a'i fod yn cael ei gefnogi gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu; gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain.

Cyflawni Uchelgeisiau Amgylcheddol

Yn ystod 2020-21, fe wnaethom adolygu pa un a yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd clir o ran cyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol i ddod yn Gyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Daethom i'r casgliad yn [ein hadroddiad](#) bod y Cyngor yn gwneud cynnydd rhagorol o ran ymgorffori ei uchelgeisiau amgylcheddol. Fe wnaethom nodi bod y Cyngor wedi symud yn gyflym i ymgorffori ei uchelgeisiau amgylcheddol yn ei fframweithiau cynllunio strategol, ei fod yn cyfleu ei uchelgeisiau'n dda a'i fod wedi rhoi mesurau sylfaenol ar waith gan ddefnyddio fframwaith perfformiad sefydledig. Nid yw cost lawn yr uchelgais yn hysbys eto, byddai mapio rhanddeiliaid mewn modd mwy cynhwysfawr yn cryfhau ymgysylltiad ymhellach, a bydd adrodd dros y flwyddyn nesaf yn helpu i ymgorffori'r uchelgeisiau amgylcheddol ac yn galluogi'r mesurau i esblygu.

Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Yn ystod 2020-21, fe wnaethom archwilio pa un a oedd cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) fel partneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydweithio'n effeithiol o ran mynd ati mewn modd strategol i gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn. Daethom i'r casgliad yn [ein hadroddiad](#) bod partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed. Caiff hyn ei wneud yn anos gan brosesau cenedlaethol cymhleth, sy'n arwain at ffocws sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Mae cryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth ranbarthol a chynllun cyflawni i gyd-fynd â hi'n cynnig y potensial i lywio newid cadarnhaol a threfniadau gwell ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymhleth a mwy arbenigol. Wrth gwblhau'r gwaith yma, fe wnaethom gydnabod bod cyfrifoldeb am yr heriau cyfredol yn y trefniadau comisiynu'n cael ei rannu'n eang. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r fframwaith cenedlaethol sy'n gymhleth, ac mae partneriaid lleol yn gyfrifol am y ffordd y rhoddir polisi a chanllawiau cenedlaethol ar waith. Rydym felly wedi adrodd yn lleol wrth gynghorau a'r Bwrdd Iechyd, ac yn genedlaethol wrth Lywodraeth Cymru, gan argymhell camau gweithredu y dylai'r cyrff hyn eu cymryd.

Arolygiaethau eraill

Fe wnaethom hefyd ystyried canfyddiadau Archwiliadau Sicrwydd a gwblhawyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac adroddiadau Estyn yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a

gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb. Fe gyhoeddodd AGC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru eu hadolygiad Cenedlaethol ar y cyd o ddefnyddio'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yng Nghymru. Fe wnaethant nodi nifer o ganfyddiadau ac argymhellion allweddol yn eu hadroddiad. Ym mis Tachwedd 2021, fe wnaeth AGC hefyd gyhoeddi ei hadroddiad trosolwg cenedlaethol o archwiliadau sicrwydd yng Nghymru a Gadewch imi ffynnu, adolygiad cenedlaethol o gymorth cynnar, gofal a chefnogaeth a threfniadau pontio ar gyfer plant anabl yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd 2021, fe gyhoeddodd AGC ei llythyr Archwiliad Sicrwydd ar gyfer y Cyngor sy'n crynhoi canfyddiadau archwiliad sicrwydd AGC a gynhaliwyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021. Diben yr archwiliad sicrwydd hwn yw gwirio pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant gyda ffocws ar ddiogelwch a lles. Mae AGC wedi adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella fel mater o flaenoriaeth a bydd yn adolygu'r cynnydd yn y meysydd hyn trwy ei chyfarfodydd adolygu ar gyfer gwerthuso perfformiad gyda penaethiaid gwasanaeth a chyfarwyddwr y Cyngor. Mae AGC yn disgwyl i'r meysydd i'w gwella y mae wedi eu hadnabod gael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r Cyngor. Nid oedd unrhyw arolygiadau eraill o Gyngor Sir Ddinbych yn y cyfnod hwn, ond mae Estyn wedi aildechrau arolygu ysgolion lleol yn Sir Ddinbych, ac mae gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru gydag AGC yn Sir Ddinbych yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

Gwasanaethau dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi peri i gynghorau ostwng gwariant a thorri gwasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Fe wnaethom ganolbwyntio ar sut y mae cynghorau'n diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn yw'r rhain. Mae'r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn dal i gynyddu ac nid yw cynghorau'n hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau achub ar y cyfle i adnewyddu, ailgloriannu ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig i greu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

Adfywio canol trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Rhwng 1950 a 1980, fe wnaeth awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i adfywio canol trefi gan greu mannau adwerthu newydd a mwy. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi blaenorol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn effeithio'n andwyol ar ganol sawl tref yng Nghymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a'r Llywodraeth ganolog, gydag un siop ymhob saith ar strydoedd mawr Cymru bellach yn wag, er bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ac ysgogi buddsoddiadau gwerth £892.6 miliwn yn y saith mlynedd ddiwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y capasiti i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt wastad yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. I gyflawni'r

deilliannau lleol gorau, mae angen i bolisiau a threfniadau cydweithio gael eu halinio a'u hintegreiddio, ac mae angen i adnoddau gael eu blaenoriaethu ar ganol trefi. Cyhoeddwyd ein [hadroddiad](#) ym mis Medi 2021.

Gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2021-22

Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar yr heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau.

Y risg a'r mater mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach o hyd yn ystod 2021-22 yw pandemig COVID-19. Rydym wedi trefnu ein gwaith i ddarparu sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor trwy'r cyfnod hwn. Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- **Sicrwydd ac asesu risg gan gynnwys ffocws ar y canlynol:**
 - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
 - Cynllunio adferiad
 - Cynlluniau lleihau carbon
 - Trefniadau hunanasesu
 - Sefyllfa ariannol
- **Llamu Ymlaen – wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig, mae'r adolygiad hwn yn ystyried pa mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.**
- **Llywio gwelliant cynaliadwy – mae'r adolygiad hwn yn ystyried a yw trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor o gymorth i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, gyda chyfleoedd i gryfhau trefniadau mewn rhai meysydd.**
- **Adrodd ar wella.**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â'r gofynion sy'n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.